**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE IS–BWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL**

**SUBJECT:** **IS–BWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL - DYDD IAU, 3 CHWEFROR 2022 DYDD IAU, 3 CHWEFROR 2022**

**REPORT OF:** **SWYDDOG CYMORTH DEMOCRATAIDD A PHWYLLGORAU**

---

PRESENT: Cynghorydd W Hodgins

Cynghorwyr K. Pritchard
L. Winnett

WITH: Rheolwr Tîm – Safonau Masnachu a Thrwyddedu
Uwch Swyddog Trwyddedu
Swyddog Trwyddedu
Cyfreithiwr

**PENDERFYNIADAU DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd | |
| No. 2 | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb. | |
| No. 3 | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau | |

**No. 4**

**DEDDF TRWYDDEDU 2003 – ADOLYGU TYSTYSGRIF SAFLE CWB – CLWB GWEITHWYR DUKESTOWN, 1 EVANS TERRACE, DUKESTOWN, TREDEGAR, GWENT**

Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad yr Uwch Swyddog Trwyddedu.

Ar ôl hynny hysbysodd y Cyfreithiwr yr Ymgeisydd am benderfyniad yr Is-bwyllgor.

Wrth ystyried y cais, dywedodd y Cyfreithiwr fod yr Is-bwyllgor wedi rhoi ystyriaeth i ddarpariaethau Deddf Trwyddedu 2003, yn neilltuol yr amcanion trwyddedu sef

- Atal troseddu ac anrhefn
- Diogelwch y cyhoedd
- Atal niwsans cyhoeddus
- Diogelu plant rhag niwed

Dywedodd y Cyfreithiwr bod yr Is-bwyllgor wedi rhoi ystyriaeth i Adran 87 Deddf Trwyddedu 2003, y canllawiau a gyhoeddwyd dan Ddeddf Trwyddedu 2003 a pholisi trwyddedu y Cyngor wrth drafod y cais.

Roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y sylwadau ysgrifenedig a dderbyniwyd fel y'u cyflwynwyd yn adroddiad y Swyddog, ynghyd â'r sylwadau llafar a roddwyd yn y gwrandawiad ar ran yr Ymgeisydd a'r bobl eraill oedd yn bresennol.

Hysbyswyd yr Is-bwyllgor am y problemau difrifol a gafwyd yn yr ardal yn gysylltiedig â phobl yn defnyddio'r safle trwyddedig y gwneir y cais amdano. Dywedwyd y cafodd mynychwyr y safle eu clywed yn rhegi, gweiddi ac yn ymddwyn yn anrhefnus yn yr oriau mân. Bu hefyd adroddiadau am ymladd yng nghyffiniau'r safle ac roedd y digwyddiadau hyn ynghyd â'r sŵn yn tarddu o'r Clwb yn tarfu'n gyffredinol ar breswylwyr yn yr ardal a theimlai preswylwyr fod hyn yn annerbyniol. Ychwanegodd y Cyfreithiwr y galwyd yr heddlu i'r safle nifer o weithiau oherwydd digwyddiadau yn y Clwb a'u bod wedi ceisio cysylltu gyda phwyllgor y Clwb i gael datrysiad. Roedd y Clwb hefyd wedi bod mewn trafodaethau gyda Thîm Iechyd yr Amgylchedd Blaenau Gwent i geisio a gwella dull rheoli/rhedeg y sefydliad.

Ystyriodd yr Is-bwyllgor y digwyddiadau niferus a fu yn ac o amgylch y Clwb a rhoddwyd ystyriaeth briodol i'r amodau a nodir

yn yr adroddiad oedd yn ymlynedig i Dystysgrif y Clwb yn ogystal â'r rhai a nodir yn Atodiad 3 gan yr Heddlu, a cheisiodd sicrhau penderfyniad teg a chytbwys.

Wrth wneud ei benderfyniad, fe wnaeth yr Is-bwyllgor hefyd ystyried darpariaethau perthnasol Deddf Trwyddedu 2003 (yn neilltuol Adran 4) a'r canllawiau a gyhoeddwyd dan Adran 182 y Ddeddf a Pholisi Trwyddedu Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent.

Wedyn dywedodd y Cyfreithiwr fod yr Is-bwyllgor wedi dod i'r penderfyniad dilynol:-

- Atal tystysgrif safle'r Clwb am gyfnod o 28 diwrnod. (D.S. Eglurwyd y byddai'r atal yn dod i rym ar ôl i'r cyfnod Apêl dechreuol o 21 diwrnod ddod i ben pe na chyflwynid apêl mewn llys).

Gwneir yr addasiadau dilynol i weithgareddau'r Clwb:-

- Cyflenwi alcohol rhwng dydd Llun a dydd Sul rhwng 11.00am a 11.00pm
- Oriau agor rhwng dydd Llun a dydd Sul rhwng 11.00am a 11.30pm
- Holl weithgareddau cymwys eraill y Clwb rhwng dydd Llun a dydd Sul rhwng 11.00am a 11.00pm.

Cytunwyd gosod yr amodau dilynol ar Dystysgrif Safle'r Clwb:-

- Rhaid i gamerâu CCTV gael eu monitro yn yr holl ardaloedd a ddefnyddir gan y sawl sy'n mynychu'r safle (heblaw'r toiledau) yn cynnwys unrhyw ardal allanol i fonitro niferoedd ac atal troseddu ac anrhefn.

- Lle caiff system CCTV ei gosod, ei hymestyn neu ei hadnewyddu, rhaid iddi fod o safon priodol fel y cytunwyd gyda'r Awdurdod Trwyddedu mewn ymgynghoriad gyda'r Heddlu. Lle gosodir system CCTV, dylai fod yn llwyr weithredol erbyn adeg dechrau'r drwydded.

- Caiff yr offer CCTV ei gadw mewn cyflwr da a bydd yn recordio yn barhaus pan fo gweithgaredd trwyddedadwy yn

digwydd ac am gyfnod o ddwy awr wedyn.

- Bydd deiliad trwydded y safle yn sicrhau y cedwir lluniau CCTV am gyfnod o 31 diwrnod. Gall yr Awdurdod Trwyddedu adolygu cyfnod adolygu lluniau fel sy'n briodol.

- Rhaid i'r recordiad a'r sgrin delwedd amser real ddangos yr amser a'r dyddiad cywir.

- Os yw'r offer CCTV (yn cynnwys unrhyw unedau symudol a ddefnyddir yn y safle) yn torri, bydd y person cyfrifol yn hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu a'r Heddlu ar lafar cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol. Caiff yr wybodaeth hon ei chofnodi ar yr un pryd yn y gofrestr o adroddiadau digwyddiadau a bydd yn cynnwys am faint o'r gloch, y dyddiad a'r ffordd y gwnaethpwyd hyn ac i bwy y cafodd yr wybodaeth ei rhoi. Caiff methiannau offer eu trwsio neu eu hadnewyddu cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol a heb oedi diangen. Caiff yr Awdurdod Trwyddedu a'r Heddlu eu hysbysu pan unionir gwallau.

- Bydd yr holl aelodau staff  yn cael eu hyfforddi i fedru atgynhyrchu a lawrlwytho lluniau CCTV i fformat symudadwy ar gais unrhyw swyddog a awdurdodwyd gan yr Awdurdod Trwyddedu neu gwnstabl.

- Bydd arwyddion clir yn nodi fod yr offer CCTV yn cael ei ddefnyddio ac yn recordio yn y safle yn ystod oriau trwyddedadwy.

- Caiff llyfr digwyddiadau ei gadw a'i gynnal a bydd yn y safle ar bob amser a chaiff ei ddangos i swyddog a awdurdodwyd gan yr Awdurdod Trwyddeu neu gwnstabl yn syth pan wneir cais.  Bydd yn cynnwys manylion yr unigolion dan sylw, disgrifiad o'r digwyddiad, amser a dyddiad, y camau gweithredu a gymerwyd a chanlyniad terfynol y sefyllfa. Caiff y cofnodion hyn eu cadw am o leiaf 12 mis.

- Byddai polisi 'Her 25' yn ei le ar gyfer gwirio unigolion yr amheuir eu bod dan oed. Ni chaiff unrhyw alcohol ei gyflenwi i unigolyn sy'n ymddangos i fod dan 25 oed os nad ydynt yn dangos dull adnabod sy'n profi eu bod yn 18 oed neu hŷn

pan gyflenwyd yr alcohol. Yr unig fathau derbyniol o ddulliau adnabod ar gyfer prawf oedran fydd pasbort, trwydded yrru cerdyn ffoto, cerdyn adnabod cenedlaethol yr Undeb Ewropeaidd/EEA neu ddogfen debyg, neu gerdyn dangos oedran a gymeradwywyd gan y diwydiant. Byddai'r cynllun prawf oedran yn cael ei weithredu'n gadarn gan y DPS a'r holl staff. Caiff posteri'n datgan y gweithredir cynllun gwirio oedran eu dangos yn glir yn ardal y bar.

- Cedwir cofnod o bob gwrthodiad yn y llyfr digwyddiadau yn rhoi'r manylion a'r amser, y nwyddau a wrthodwyd gan y person oedd yn gweini ac enw'r unigolion a geisiodd brynu, os yw'n hysbys. Cofnodir disgrifiad da os na roddwyd enw. Dylai'r ddogfen hon fod ar gael i'w harchwilio ar gais gan swyddog a awdurdodwyd gan yr Awdurdod Trwyddedu neu Gwnstabl.

- Caiff unrhyw berson sy'n gweithio ar y safle ei hyfforddi yng nghyswllt gwerthu dan oed, gwerthu i ddirprwy a sut i wrthod gwerthu i gwsmeriaid anodd. Dylid hefyd gynnal hyfforddiant diogelu gyda'r holl staff. Caiff hyfforddiant o'r fath ei ddiweddaru fel sydd angen pan fydd deddfwriaeth yn newid. Dylai hyfforddiant o'r fath gael ei ddogfennu'n glir, ei lofnodi a'i ddyddio gan yr hyfforddydd a'r sawl a hyfforddir. Dylai'r dogfennau hyn fod ar gael i'w harchwilio ar gais gan swyddog a awdurdodir gan y Swyddog Trwyddedu neu Gwnstabl a'u cadw am gyfnod o 12 mis.

- Bydd y rheolwr/ysgrifennydd neu berson cymwys arall yn rheoli unrhyw ardal tu fas i sicrhau nad yw cwsmeriaid yn ymddwyn mewn modd swnllyd neu anhrefnus ac nad ydynt yn peri tramgwydd.

- Rhaid dangos hysbysiadau ysgrifenedig clir ar bob allfan o'r safle yn eu cyfarwyddo i barchu anghenion preswylwyr lleol ac i adael y safle a'r ardal yn dawel.

- Bydd y person cyfrifol/ysgrifennydd yn cynnal asesiad risg o'r angen am ddefnyddio gwydrau polycarbonad neu wydr wedi'i gryfhau yn y safle, yn arbennig ar gyfer digwyddiadau/defnydd tu fas.

| | | |
|---|---|---|
| | • Caiff y safle ei glirio o gwsmeriaid o fewn 30 munud o amser olaf cyflenwi alcohol ar unrhyw ddiwrnod.<br><br>• Ni chaniateir defnyddio ardal drwyddedig tu fas y safle ar ôl 11.00pm heblaw am fynediad yn unig ar gyfer defnyddio'r ardal ysmygu.<br><br>• Ni chaniateir mynd ag unrhyw boteli, caniau na gwydrau y tu fas ar ôl 11.00pm. Caiff hysbysiadau digonol eu dangos mewn mannau addas i sicrhau y caiff yr wybodaeth hon ei thynnu i sylw defnyddwyr.<br><br>• Bydd staff yn sicrhau y caiff unrhyw boteli neu wydrau eu tynnu oddi ar bobl sy'n gadael y safle.<br><br>• Mae'n rhaid i blant fod yng nghwmni oedolyn cyfrifol a dan oruchwyliaeth bob amser.<br><br>• Cynhelir asesiad risg o'r angen am Oruchwylwyr Drws SIA. Os oes goruchwylwyr drws yn bresennol yna dylai'r person cyfrifol/ysgrifennydd sicrhau y caiff y manylion dilynol ar gyfer pob goruchwyliwr drws eu rhoi ar yr un pryd ar y gofrestr a gedwir ar gyfer i diben hwnnw:-<br>  • Enw llawn;<br>  • Rhif tystysgrif SIA a neu rif bathodyn, neu rif cofrestru unrhyw gynlluniau achredu a gydnabyddir gan yr Awdurdod Trwyddedu (yn cynnwys y dyddiad y daw'r cofrestriad neu achrediad hwnnw i ben);<br>  • Faint o'r gloch y gwnaethant ddechrau eu dyletswydd;<br>  • Faint o'r gloch y gwnaethant orffen eu dyletswydd.<br><br>• Mae'r gofrestr hon i'w chadw ar y safle bob amser a chaiff ei chadw er mwyn galluogi swyddog a awdurdodwyd gan yr Awdurdod Trwyddedu neu gwnstabl i ganfod manylion yr holl stiwardiaid drws a ddefnyddiwyd yn y safle yn ystod y cyfnod o ddim llai na 31 diwrnod cyn y cais a bydd yn agored i gael ei archwilio gan swyddogion a awdurdodwyd gan yr Awdurdod Trwyddedu neu gwnstabl os gwneir cais.<br><br>• Cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol, caiff goleuadau tu fas eu lleoli er mwyn cyfyngu ar darfu ar anheddau yng | |

nghyffiniau'r safle trwyddedig tra'n cynnal lefel ddigonol o oleuo ar gyfer i gwsmeriaid a phobl a gyflogir yn y safle i gyrraedd a gadael yn ddiogel.

- Ni chaiff cerddoriaeth ei chwarae ar uwchseinydd ar lefel a fyddai'n tarfu yn afresymol ar ddefnyddwyr unrhyw anheddau yn y cyffiniau.

- Heblaw am fynd i mewn ac allan, caiff pob drws a ffenestr eu cadw ar gau yn ystod cyfnodau adloniant sy'n gysylltiedig gyda thrwydded y safle.

- Ni chaniateir gosod unrhyw uchelseinydd ar gyfer cerddoriaeth ar du fas y safle neu du fas i unrhyw adeilad sy'n ffurfio rhan o'r safle.

- Tra bod gweithgareddau trwyddedadwy yn mynd rhagddynt, mae'n rhaid i'r toiledau yn y safle gael eu gwirio'n rheolaidd am ddefnydd neu gyflenwi cyffuriau anghyfreithlon. Mae'n rhaid cadw cofnod ysgrifenedig am 31 diwrnod o bob gwiriad a wneir ar y safle a rhaid iddo fod ar gael i'w archwilio ar unwaith ar gais Heddlu Gwent.

Dywedodd y Cyfreithiwr fod yr Is-bwyllgor yn dymuno diolch i Bwyllgor y Clwb am eu gonestrwydd a'u hatgoffa y gellid wedi bod wedi atal Tystysgrif Safle'r Clwb am gyfnod o hyd at dri mis. Fodd bynnag, teimlai'r Pwyllgor fod atal am 28 diwrnod yn briodol a chymesur. Dymunai'r Is-bwyllgor hefyd gyfleu eu gobaith diffuant na fyddent yn gweld y Clwb hwn a'i Aelodau gerbron yr Is-bwyllgor Trwyddedu yn y dyfodol ac y byddai'r problemau gyda'r Clwb yn awr yn cael eu datrys.

**Hawl Apelio**

Mae gan bob parti hawl i apelio i'r Llys Ynadon o fewn 21 diwrnod o dderbyn y penderfyniad hwn. Mae gan unrhyw awdurdod cyfrifol neu berson cywir hawl i ofyn am adolygiad o'r drwydded.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am fynychu a dywedodd fod y cyfarfod ar ben.